

Canolfan Merched y Wawr
Stryd yr Efail
Aberystwyth
18 Rhagfyr 2019

Annwyl Swyddogion

Carwn ymateb ar ran Merched y Wawr yn Genedlaethol. Tybiwn y byddai datganoli darlledu, y wasg a'r cyfryngau i Gymru yn fuddiol o ran yr Iaith Gymraeg.

O ystyried datganoli teimlwn fod angen pwerau rheoleiddio i'r Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol.

Byddai hyn yn cynnwys datganoli rheoliadau ym ymwneud â theledu, radio, y we a'r wasg brintiedig.

Yn bresennol mae y ffaith nad yw'r meysydd hyn wedi'u datganoli wedi arwain at ddiffyg democrataidd difrifol yn ein gwlad; diffyg datblygiadau a gwarchodaeth ym maes y Gymraeg; a diffyg mynediad i'r we sy'n gyfrifol am ddal ein heconomi yn ôl a gyrru pobol o gymunedau gwledig.

Mae'r ffaith nad yw darlledu wedi'i ddatganoli yn golygu bod cyfleon economaidd pwysig iawn wedi'u colli, yn ogystal â chyfleon diwylliannol ac ieithyddol. Mae hyn yn cynnwys cyfleon:

- i greu mwy o sianeli teledu a gorsafoedd radio Cymraeg a Chymreig
- i greu rheoliadau addas ar gyfer radio a theledu lleol
- i sicrhau gwybodaeth gywirach am ein system ddemocrataidd yn ein holl gyfryngau ac i adrodd arnynt
- i graffu ar ein sefydliadau democrataidd
- i greu system mynediad i'r we decach a mwy cynaliadwy
- i greu mwy o ddeunydd Cymraeg ar-lein

Tybiwn y byddai yn fuddiol cael mewnbwn gan y darparwyr presennol, mwy o fuddsoddiad a chydwiethio gyda sefydliadau a mudiadau gan gynnwys y trydydd sector i'r dyfodol. Os ydym am weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 rhaid cael buddsoddiad digonol a dealltwriaeth ehangach o'r angen am fwy o bwerau wedi i ddatganoli darlledu i Gymru.

Yr eiddoch yn gywir

Tegwen Morris - Cyfarwyddwr Cenedlaethol Merched y Wawr

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications
Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB12
Ymateb gan Merched y Wawr/ Response from Merched y Wawr

